**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Albert Heaney
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru

31 Ionawr 2020

Annwyl Albert

**Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal**

Ymhellach i'n sesiwn ddilynol gyda chi ar 13 Ionawr 2020, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei gynnal ar draws nifer o feysydd ar hyn o bryd i wella'r deilliannau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

Rydym yn nodi'n benodol dull Llywodraeth Cymru o ymestyn Rhianta Corfforaethol ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus, a ystyriwyd gan y Cabinet ar 6 Ionawr 2020. Rydym yn croesawu unrhyw ymdrechion i gynnig gwell ymateb gan y sector cyhoeddus o ran anghenion plant sydd wedi bod mewn gofal, ac edrychwn ymlaen at glywed mwy am y modd y mae hynny'n cael ei roi ar waith.

Yn y cyfamser, rydym yn ceisio eglurder ynghylch y pwyntiau canlynol, sef y pwyntiau y cytunoch i anfon rhagor o wybodaeth amdanynt fel camau gweithredu.

**Lleoliadau y tu allan i'r Sir a'r tu allan i Gymru**

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedoch wrthym fod ffigurau heb eu dilysu, ar 30 Medi 2019, yn nodi y bu 1,388 o leoliadau y tu allan i'r sir a 243 y tu allan i Gymru. Nid yw'n glir ar ba adeg y cymerwyd y ffigurau hyn, beth yw'r pwynt cychwyn o ran y targed o ostwng y mathau hyn o leoliadau mewn 3 blynedd, ac a yw'r ffigurau hyn wedi gostwng ers y cyfnod y mae Llywodraeth Cymru wedi targedu ei gostyngiadau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

A fyddech cystal ag egluro pwynt cychwyn y targedau 3 blynedd, a yw'r ffigurau heb eu dilysu o fis Medi yn dangos cynnydd yn erbyn y targedau hynny, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn y dyfodol?

A fyddech cystal ag esbonio pam mae 243 o blant yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru?

**Datgeliadau**

Cadarnhau a oes unrhyw brosesau ar waith i alluogi awdurdodau lleol i ddatgelu achosion o leoliadau mewn cyfleusterau anghofrestredig i Lywodraeth Cymru a / neu Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn yr un modd, a oes unrhyw ofynion o ran datgelu lleoliadau eithriadol lle mae'r costau dan sylw yn uwch na throthwy penodol?

**Data ynghylch Cyrhaeddiad Addysgol**

Mae Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi data bob blwyddyn ynghylch cyrhaeddiad pob plentyn, ac mae’r data mwyaf diweddar sydd ar gael yn perthyn i flwyddyn academaidd 2018/19. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad ychwanegol ar gyfer y rheiny sy’n cael gofal a chymorth wedi’i oedi. Os yw cyrhaeddiad plant sydd wedi bod mewn gofal yn flaenoriaeth, dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn gyflymach.

A fyddech cystal ag egluro’r rhesymau dros yr oedi hwn cyn cyhoeddi data ychwanegol?

**Gwerthusiad o’r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

Roedd gennym ddiddordeb clywed a oes unrhyw ofynion ar gonsortia rhanbarthol i adrodd yn erbyn targedau rhanbarthol ar gyfer gwella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal, ac er i ni glywed rhai enghreifftiau yn ystod tystiolaeth lafar ar fonitro cynnydd yn erbyn targedau, hoffem weld tystiolaeth o’r modd y mae’r Grant Datblygu Disgyblion wedi cyfrannu at y cynnydd hwn, a manylion gwariant y consortia ar Grant Datblygu Disgyblion ar blant sy’n derbyn gofal.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)**

Nid oes unrhyw ddata penodol wedi'i gyhoeddi o ran amseroedd aros CAMHS ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal. Mae amseroedd aros rhwng atgyfeirio a

thriniaeth yn cael eu cyhoeddi ar StatsWales, sy'n rhoi gwybod yn rhannol i ni sut mae Byrddau Iechyd Lleol yn perfformio. Mae'r ffigurau hyn yn tueddu i amrywio'n sylweddol, ac mae offeryn data Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar lesiant pobl ifanc yn nodi tueddiadau yn y data.

Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael dadansoddiad o'r ffigurau ar gyfer pob un o'r 12 mis diwethaf, yn cynnwys cyfartaleddau o ran amseroedd aros, a'r amseroedd aros uchaf ac isaf ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf. Byddem yn croesawu pe baech yn cyflwyno'r data hwn fesul Bwrdd Iechyd Lleol hefyd.

**Grŵp Cynghori'r Gweinidog**

Cytunoch i rannu adroddiad diweddaru gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog – y'i ddisgwylir ym mis Mehefin 2020 – gyda'r Pwyllgor.

Yn olaf, cytunoch i ysgrifennu atom hefyd gyda manylion y gwerthusiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynghylch y 'Rhaglen Adlewyrchu' a'r dull Buurtzorg o ran gwasanaethau cymdeithasol plant yn Lloegr, y cyfeiriodd Jenny Rathbone AC atynt.

Yn gywir,



**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**